## Yr Adran Cymunedau

# A fyddaf yn gymwys i gael gwasanaethau gofal a chymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin?

## Ffeithlen 29

**(Awst 2023)**

**Cyflwyniad**

Cyn y gallwn ddweud wrthych a ydych yn gymwys i gael gwasanaethau gofal a chymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin, bydd angen ichi gael asesiad gan aelod o staff gwaith cymdeithasol. I gael rhagor o fanylion am yr asesiad hwnnw, gweler Ffeithlen 22, 'Rwy'n credu bod angen help arnaf.'

**Cymhwysedd**

Fel rhan o'r asesiad o'ch anghenion gofal a chymorth, bydd angen i'r aelod o staff gwaith cymdeithasol ystyried a ydych yn gymwys i gael gwasanaethau gofal a chymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin. I weld a ydych yn gymwys, mae Cyngor Sir Caerfyrddin, fel pob awdurdod lleol arall yng Nghymru, yn defnyddio meini prawf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Y Meini Prawf Cymhwysedd**

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys i gael gwasanaethau gofal a chymorth, neu i gael taliad uniongyrchol gan Gyngor Sir Caerfyrddin, mae'n rhaid i chi fodloni 4 amod.

Yr amod cyntaf yw bod eich anghenion yn codi yn sgil naill ai iechyd meddwl neu iechyd corfforol gwael, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu amgylchiadau tebyg.

Os yw hyn yn wir amdanoch chi, bydd yr aelod o staff gwaith cymdeithasol yn edrych i weld a yw un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol o ran eich anghenion:

- Y gallu i ofalu am eich hun neu i gyflawni tasgau pob dydd; (Mae hunanofal yn cynnwys: bwyta/yfed; Cynnal hylendid personol; codi a gwisgo; symud o gwmpas y cartref; paratoi prydau bwyd, cadw'r cartref yn lân, yn ddiogel ac yn hylan)
- Y gallu i gyfathrebu.
- Diogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod.

- Cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu neu weithgareddau hamdden.
- Cynnal neu ddatblygu perthynas deuluol neu berthynas bersonol o bwys.
- Cynnal neu ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol neu ymwneud â'r gymuned; neu
- Cyflawni cyfrifoldebau o ran gofalu am blentyn

Os yw'r uchod yn berthnasol, byddwch wedi bodloni'r ail amod o ran y meini prawf cymhwysedd.

Yna bydd yr aelod o staff gwaith cymdeithasol yn edrych i weld a ydych yn gallu diwallu'r anghenion hyn eich hun. Wrth ystyried a ydych yn gallu diwallu eich anghenion eich hun, byddwn yn ystyried a yw gwneud hynny'n achosi poen, gorbryder neu ofid sylweddol ichi. Byddwn yn ystyried a fyddai'n peryglu eich iechyd neu eich diogelwch eich hun, neu rywun arall, pe baech yn diwallu eich anghenion gofal eich hun. Byddwn hefyd yn ystyried yr amser y byddai'n ei gymryd ichi ddiwallu eich anghenion gofal eich hun.

Os nad ydych yn gallu diwallu eich anghenion gofal a chymorth ar eich pen eich hun, bydd yr aelod o staff gwaith cymdeithasol yn ystyried a oes rhywun arall yn barod i ddiwallu eich anghenion, ac yn gallu gwneud hynny, er enghraifft gofalwr. Os nad oes gennych ofalwr, bydd yr aelod o staff gwaith cymdeithasol yn ystyried a all sefydliad yn y gymuned ddiwallu eich anghenion gofal yn hytrach na thrwy Gyngor Sir Caerfyrddin. Dyma drydydd cam y meini prawf cymhwysedd.

Os nad ydych yn gallu diwallu eich anghenion eich hun; neu os nad oes gennych rywun arall fel gofalwr sy'n barod i ddiwallu eich anghenion ac yn gallu gwneud hynny; ac nad oes unrhyw wasanaethau cymunedol eraill ar gael i ddiwallu eich anghenion, yna mae'n debygol iawn y byddwch yn gymwys i gael gwasanaethau gofal a chymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Fodd bynnag, bydd yr aelod o staff gwaith cymdeithasol a fydd yn cynnal asesiad o'ch anghenion gofal a chymorth yn cadarnhau hyn.

**Beth os ydw i'n credu fy mod yn gymwys i gael gofal a chymorth, ond nid yw'r aelod o staff gwaith cymdeithasol yn credu hynny?**

I ddechrau, byddem yn eich annog i drafod hyn â'r aelod o staff gwaith cymdeithasol a gofyn pam nad yw'n credu eich bod yn gymwys. Efallai y byddwch hefyd am esbonio'r rhesymau pam eich bod yn credu eich bod yn gymwys. Os nad ydych yn gallu datrys hyn yn y drafodaeth honno, mae gennych yr hawl i wneud cwyn drwy broses gwynion gofal cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin.

Ceir rhagor o fanylion am y broses gwyno yn ein Ffeithlen 17 ynghylch canmol, gwneud sylw, neu wneud cwyn. Fodd bynnag, er hwylustod, gallwch wneud cwyn fel a ganlyn:

- Drwy ffonio 01267 234567
- Drwy anfon neges e-bost i **cwynion@sirgar.gov.uk**
- Drwy gwblhau ein ffurflen gwynion a chanmoliaeth sydd ar gael ar-lein: www.sirgar.gov.uk/cwynionachanmoliaeth
- Drwy'r post (nid oes angen stamp arnoch): Rhadbost, RRZH-HXZC-AGLE, Y Tîm Cwynion a Chanmoliaeth, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP
- Drwy recordio eich sylwadau ar dâp, fideo neu DVD a'i anfon at y Tîm Cwynion a Chanmoliaeth

**Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael yn Saesneg.**
**Os hoffech gael y daflen ffeithiau hon mewn unrhyw fformat arall, ffoniwch 01267 228703 neu ddanfon e-bost i gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**